# PARTNERIAETH BOSIB

# Holiadur Canfod Risg Cychwynnol

Trwy drafod â'r rhanddeiliaid perthnasol* ym Mhrifysgol Aberystwyth (PA), rhowch ystyriaeth i'r canlynol:

- Sut y cafodd y Bartneriaeth newydd ei chynnig?
  - A oedd hwn yn gyswllt uniongyrchol trwy staff PA, neu a wnaed cyflwyniad trwy drydydd parti hysbys/anhysbys, neu ai sefydliad nad oedd yn hysbys cyn hyn a gysylltodd â'r Brifysgol?
- A yw PA yn 'adnabod' y sefydliad sy'n cael ei ystyried am Bartneriaeth?
  - Beth yw lefel yr ymddiriedaeth/dealltwriaeth ar hyn o bryd rhwng PA a'r Partner posib?
- A gafwyd canlyniadau/cyflawniadau arwyddocaol trwy'r sefydliad a ystyrir am Bartneriaeth bosib hyd yma (naill ai yn hanesyddol gyda'r Brifysgol neu gyda sefydliad academaidd arall hysbys)?

**Amcanion a Gwerthoedd y Bartneriaeth:**

- Ym mha ffyrdd y bydd PA yn elwa o'r Bartneriaeth bosib hon (denu myfyrwyr / Ymchwil / enw da / manteision ariannol)?
- Beth yw diben y Bartneriaeth arfaethedig?
- A oes nod/canlyniad cyffredin wedi'i nodi? Diffiniwch 'lwyddiant' yng nghyswllt y ddarpar Bartneriaeth hon.
  - Ym mha ffyrdd y byddai myfyrwyr a/neu staff PA yn elwa o'r Bartneriaeth hon?
- A fyddai'r Bartneriaeth bosib yn cyd-daro ag amcanion hirdymor a Chynllun Strategol PA?
  - A oes gan y Brifysgol ddealltwriaeth glir ynglŷn â'r gweithgareddau Partneriaeth posib hynny sy'n ddibynnol ar y Bartneriaeth er mwyn cyflawni amcanion PA, a pha feysydd y byddai PA yn gallu eu cyflawni'n well ar ei phen ei hun?
- A yw holl werthoedd, dibenion a blaenoriaethau sefydliadol y darpar Bartner yn gymaradwy a chydnaws?
- Beth yw'r risgiau a'r enillion a ganfuwyd yn achos y naill Bartner a'r llall?
  - A yw'r risgiau a'r enillion hynny'n cael eu rhannu'n gyfartal?

**Amcanion a Chyfrifoldebau'r Bartneriaeth:**

- Diffiniwch nodau ac amcanion ar y cyd penodol y ddarpar Bartneriaeth - a ydynt yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn ymarferol o fewn cyfnod penodol o amser?
- A yw'r ddarpar Bartneriaeth yn cael ei chefnogi gan staff uwch a staff gweithredol o'r ddau sefydliad?
- Diffiniwch y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau y cytunwyd arnynt ar y cyd ar gyfer y ddarpar Bartneriaeth
- A fydd angen addasu ffurf a/neu gwmpas y ddarpar Bartneriaeth mewn ymateb i ffactorau allanol neu gyfnewidiol?
  - Diffiniwch y protocol pe bai angen newidiadau i'r gweithgareddau Partneriaeth posib

- A yw PA yn gwbl ymwybodol o unrhyw wahaniaethau rheoliadol, daearyddol yng nghwmpas neu weithrediadau'r darpar Bartner ac, os oes gwahaniaethau, sut y gallai hyn effeithio ar weithrediad neu ganlyniadau'r Bartneriaeth?
- Sut fyddwn ni'n gweithio fel partneriaid ar lefel ymarferol?
    - A oes gennym iaith/eirfa gyffredin? A fydd angen i un Partner, neu'r ddau, fuddsoddi mewn teithio, staff ychwanegol: academaidd/gweinyddol?
- Ai'r un yw ein dealltwriaeth ynglŷn ag amlder, lefel a natur y gwaith?
- A osodwyd llinellau atebolrwydd clir ar gyfer perfformiad y bartneriaeth?
- Pwy fydd yn rhoi arweiniad i'r prosiect?
- Pa amgylchiadau fyddai'n arwain at derfynu'r bartneriaeth? Beth yw'r broses ar gyfer terfynu?
    - A nodir/gytunir ar y rhain ar y cyd?

___

*Gall rhanddeiliaid perthnasol PA gynnwys:

**Y Swyddfa Partneriaethau Academaidd** yn y Gofrestrfa Academaidd

Ar gyfer prosiectau uwch eu risg, rhyngadrannol, aml-asiantaeth, er enghraifft Rhyddfreiniau, trefniadau Dilysu, a chytundebau gradd Ddeuol/dyfarniad ar y Cyd; ac ar gyfer Partneriaethau Denu Myfyrwyr a Symudedd Myfyrwyr canolig eu risg, er enghraifft trefniadau Cydweddu;

CYSYLLTWCH Â'R:

Swyddfa Partneriaethau Academaidd - aqsstaff@aber.ac.uk

**Cyfleoedd Byd-eang** a **Denu Myfyrwyr a Datblygu Rhyngwladol** sef unedau o fewn i'r adran Marchnata a Denu Myfyrwyr

Ar gyfer Partneriaethau denu myfyrwyr isel eu risg (trwy fynediad safonol ac uwch, megis cytundebau symud ymlaen); a Phartneriaethau symudedd myfyrwyr (er enghraifft, cynlluniau Cyfnewid, Astudio Dramor, ac Erasmus).

CYSYLLTWCH Â:

Harriet Howse, Pennaeth Denu Myfyrwyr a Datblygu Rhyngwladol - hah46@aber.ac.uk

Marian Gray, Pennaeth Cyfleoedd Byd-eang - mag11@aber.ac.uk <mailto:mag11@aber.ac.uk>

Pamela Heidt, Rheolwr Cynlluniau Cyfnewid ac Astudio Dramor - pah21@aber.ac.uk

**Cyfadrannau**

Ar gyfer 'mapio' cyrsiau a chymwysterau academaidd penodol i ddisgyblaethau

CYSYLLTWCH Â:

Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol:

https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/faculties/arts-social-sciences/contact-us/

Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol:

https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/faculties/business-physical-sciences/contact-us/

Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd:

https://www.aber.ac.uk/cy/about-us/faculties/earth-life-sciences/contact-us/

**Ysgol y Graddedigion**

Ar gyfer cyfleoedd ôl-raddedig mewn Ymchwil, megis cyd-arolygu PhD

CYSYLLTWCH Â:

staff Ysgol y Graddedigion - https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/about-us/the-team/

**Y Ganolfan Saesneg Ryngwladol**

Ar gyfer hyfforddiant, asesu a safonau iaith Saesneg

CYSYLLTWCH Â:

Staff y Ganolfan Saesneg Ryngwladol - https://www.aber.ac.uk/en/international-english/staff-profiles/